HSC(6) 53-25 PTN3

Llywodraeth Cymru

# Y Bil Tybaco a Fêps

## Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol

07/04/2025

Ym mis Chwefror 2025, cyflwynodd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol ei adroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Tybaco a Fêps. Mae'r adroddiad yn cynnwys 2 gasgliad a 7 o argymhellion. Dyma ymateb Llywodraeth Cymru i'r argymhellion hynny.

# Cynnwys

**Cyflwyniad** .......... 3

**Ymateb i'r 7 argymhelliad** .......... 4

Argymhelliad 1 .......... 4

Argymhelliad 2 .......... 4

Argymhelliad 3 .......... 5

Argymhelliad 4 .......... 6

Argymhelliad 5 .......... 7

Argymhelliad 6 .......... 8

Argymhelliad 7 .......... 8

# Cyflwyniad

Smygu yw prif achos unigol salwch y gellir ei atal a marwolaeth, gan achosi dros 3800 o farwolaethau'r flwyddyn yng Nghymru. Yn ogystal â'r gost bersonol, gellir priodoli mwy na 17,000 o dderbyniadau i'r ysbyty bob blwyddyn i smygu, gan ychwanegu pwysau sylweddol at y system gofal iechyd. Rydym yn bryderus iawn hefyd am y cynnydd yn nifer y plant a phobl ifanc sy'n defnyddio fêps ac rydym am gadw'r cynhyrchion hyn i ffwrdd oddi wrthynt tra bo eu hysgyfaint a'u hymennydd yn dal i ddatblygu.

Nod y Bil Tybaco a Fêps nodedig yw torri cylch caethiwed i dybaco a chreu cenhedlaeth ddi-fwg drwy sicrhau na chaiff cynhyrchion tybaco eu gwerthu byth yn gyfreithlon i bobl a anwyd ar 1 Ionawr 2009 neu ar ôl hynny. Mae'r Bil hefyd yn darparu pwerau i fynd i'r afael â'r elfennau hynny y gwyddom eu bod yn gwneud fêps a chynhyrchion nicotin eraill yn atyniadol i blant a phobl ifanc megis y modd y maent yn cael eu hysbysebu, eu pecynnu a'r cyflasynnau sydd ar gael. Mae'r Bil hefyd yn cryfhau'r offer gorfodi sydd ar gael i'r awdurdodau lleol yng Nghymru.

Hoffwn ddiolch i aelodau'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am eu hadroddiad ar Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol y Bil Tybaco a Fêps ac rwyf wedi nodi fy ymateb i argymhellion unigol yr adroddiad isod.

# Ymateb i’r 7 argymhelliad

## Argymhelliad 1

Mae’r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai'r Gweinidog nodi sut y bydd gweithredu'r Bil yn cyd-fynd â gweithrediad Deddf Marchnad Fewnol y Deyrnas Unedig 2020, yn enwedig pe bai polisi'r DU a Llywodraeth Cymru yn y maes hwn yn amrywio yn y dyfodol.

**Ymateb: Derbyn**

Er mai mater datganoledig yw polisi iechyd, mae'n arfer hirsefydlog i lywodraethau'r pedair gwlad weithio gyda'i gilydd ar bolisi a deddfwriaeth rheoli tybaco i weithredu a gorfodi mesurau ledled y DU. Mae'r Bil Tybaco a Fêps wedi parhau â'r dull hwn ac fe'i datblygwyd mewn partneriaeth i fynd i'r afael â nodau polisi ar y cyd a chreu dull cyfreithiol cydlynol o reoleiddio tybaco a chynhyrchion fepio ledled y DU. Wrth i'r Bil fynd yn ei flaen drwy'r Senedd, mae fy swyddogion yn gweithio'n gynhyrchiol gyda'r rhai yn llywodraethau eraill y DU a byddant, os bydd y Bil yn cael ei basio, yn parhau i gydweithio ar ddatblygu is-ddeddfwriaeth a rhoi diwygiadau rheoleiddiol y Bil ar waith. Fel sy'n digwydd gyda meysydd polisi eraill, byddwn yn ystyried effaith Deddf Marchnad Fewnol y DU 2020 yn ystod y broses o ddatblygu polisi i weithredu mesurau'r Bil.

**Goblygiadau Ariannol: Dim.**

## Argymhelliad 2

Mae’r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru, gyda'i phartneriaid, gan gynnwys Iechyd Cyhoeddus Cymru, ddarparu negeseuon mwy eglur i blant a phobl ifanc am beryglon iechyd hirdymor posibl caethiwed i nicotin a fepio, yn enwedig yng ngoleuni tystiolaeth y Gweinidog y dylai pobl ifanc osgoi fepio yn gyfan gwbl.

**Ymateb: Derbyn**

Mae ein cyngor ar fêps yn glir iawn erioed – os nad ydych chi'n smygu, peidiwch â fepio, ac ni ddylai plant a phobl ifanc byth fepio. Ond rydym yn cydnabod bod pobl ifanc yn defnyddio fêps a dyna pam mae'r Bil yn bwriadu cyflwyno mesurau cymesur sydd wedi'u cynllunio i fynd i'r afael â fepio ymhlith pobl ifanc.

Gwyddom fod y defnydd o fêps gan bobl ifanc yn heriol iawn, yn enwedig i ysgolion. Rydym felly, wedi rhoi gwybodaeth a chanllawiau sy'n seiliedig ar dystiolaeth i ysgolion sy'n addysgu dysgwyr oedran uwchradd ar sut y gallant ymateb i fepio a helpu i fynd i'r afael â fepio drwy bolisi, arferion a chynnwys y cwricwlwm.

Mae pecyn cymorth sy'n cefnogi'r Maes Dysgu a’r Profiad Iechyd a Lles mewn ysgolion wedi'i ddatblygu hefyd ac mae’n darparu gwybodaeth ac adnoddau i athrawon, yn ogystal â gweithgareddau yn yr ystafell ddosbarth ar fepio. Mae'r adnoddau hyn wedi'u cynllunio i'w defnyddio'n hyblyg a'u haddasu i ddiwallu anghenion dysgwyr. Cyhoeddwyd y canllawiau gan Iechyd Cyhoeddus Cymru ym mis Medi 2023 ac maent ar gael yma: Gwybodaeth a Chanllawiau ar Fêpio i Ddysgwyr Oedran Uwchradd yng Nghymru - Iechyd Cyhoeddus Cymru. Mae'r pecyn cymorth i’w weld yma: Cefnogi Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Lles mewn Ysgolion - Iechyd Cyhoeddus Cymru

Gan fod rhieni, yn ogystal ag athrawon mewn sefyllfa dda i adnabod a chefnogi unrhyw berson ifanc sy'n fepio, bu Iechyd Cyhoeddus Cymru yn gweithio gyda Thîm Iechyd y Cyhoedd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan i ddatblygu canllaw gwybodaeth i rieni. Mae’r canllawiau ar gael yma: Sgyrsiau agored gyda'ch plant yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â phryderon am fepio - Iechyd Cyhoeddus Cymru

Mae ein holl adnoddau yn mynd i'r afael ag effeithiau iechyd fepio gan gynnwys y risg o ddibyniaeth ar nicotin, ac yn darparu awgrymiadau a chamau gweithredu i fynd i'r afael â'r defnydd o fêps gan bobl ifanc. Mae'n bwysig nodi bod ein hadnoddau hefyd yn cyfeirio at y gwasanaethau cymorth sydd ar gael i unrhyw berson ifanc sy'n gaeth i nicotin trwy fêps. Er ein bod wedi hyrwyddo'r adnoddau hyn yn eang, gan gynnwys drwy sianeli megis Hwb a Dysg, rydym ni ac Iechyd Cyhoeddus Cymru yn parhau i drafod gyda rhanddeiliaid pa ddeunyddiau eraill y gallai fod eu hangen yn ogystal â chwilio am gyfleoedd pellach i hyrwyddo argaeledd y rhai sydd eisoes wedi'u paratoi i'r rhai sy'n gallu elwa arnynt.

Os bydd y Bil yn dod yn gyfraith, rwyf yn bwriadu cydweithio'n agos â gwledydd eraill y DU i ymgymryd â gweithgareddau cyfathrebu cynhwysfawr fel bod yr holl randdeiliaid, gan gynnwys pobl ifanc, yn gwybod pam rydym yn cymryd camau ar fepio ymhlith pobl ifanc a sut y mae'r gyfraith yn newid.

**Goblygiadau Ariannol: Dim.**

## Argymhelliad 3

Mae’r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Mae’n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau, ochr yn ochr â'i phwyslais ar atal drwy'r Bil hwn, bod cymorth priodol ar gael i'r bobl ifanc hynny sydd eisoes yn gaeth i nicotin

**Ymateb: Derbyn**

Sefydlwyd Helpa Fi i Stopio yn 2017 fel y gwasanaeth cenedlaethol am ddim yng Nghymru ar gyfer rhoi'r gorau i smygu ac ers 2017 mae wedi cefnogi dros 100,000 o smygwyr yn eu hymdrechion i roi'r gorau i smygu. Ar hyn o bryd, gall unrhyw un sy'n 12 oed neu'n hŷn sy'n smygu gael mynediad at gymorth ymddygiadol am ddim a therapi disodli nicotin gan Helpa Fi i Stopio.

Er bod ein cymorth i smygwyr yn glir ac yn gynhwysfawr, roeddem yn cydnabod bod angen newidiadau i gefnogi pobl sy'n defnyddio fêps ac sy'n dymuno rhoi'r gorau iddi, gan gynnwys pobl ifanc. Yn dilyn adolygiad manwl o'r dystiolaeth, mae Iechyd Cyhoeddus Cymru yn datblygu llwybr i gefnogi'r rhai sy'n gaeth i nicotin ond nad ydynt yn defnyddio tybaco yng nghyd-destun y system Helpa Fi i Stopio, sy'n cynnwys sicrhau bod therapi disodli nicotin ar gael i'r rhai a fyddai'n elwa arni. Caiff y llwybr hwn ei roi ar waith ledled Cymru yn y flwyddyn ariannol 2025/26.

Goblygiadau Ariannol: Dim.

## Argymhelliad 4

Mae’r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru asesu'r mecanweithiau gorfodi sy'n cyd-fynd â'r Bil er mwyn sicrhau ei hun eu bod yn ddigonol i gefnogi gweithrediad effeithiol y Bil. Dylai’r Gweinidog ysgrifennu atom i amlinellu canfyddiadau’r gwaith hwn.

Ymateb: Derbyn

Rydym yn parhau i ymgysylltu â Safonau Masnach Cymru i fynd i'r afael â gwerthu cynhyrchion tybaco a fêps dan oed ac yn anghyfreithlon yng Nghymru, gan adeiladu ar y gefnogaeth a ddarparwyd gennym yn y flwyddyn ariannol 2023/24. Mae Cymru hefyd yn rhan o weithgarwch gorfodi a gwybodaeth ar lefel genedlaethol sydd wedi'i gynllunio i amharu ar y diwydiant ledled y DU. Mae hyn yn cynnwys y gwaith sy'n cael ei wneud gan CThEF a'r Llu Ffiniau i fynd i'r afael â thybaco anghyfreithlon sy'n cael ei gefnogi gan gyllid newydd gwerth dros £100 miliwn oddi wrth Lywodraeth y DU dros 5 mlynedd ac sydd wedi'i gynllunio i roi hwb i alluogrwydd gorfodi ledled y DU.

Nod y Bil yw cryfhau gorfodi fel bod gan asiantaethau fel Safonau Masnach Cymru yr offer y mae arnynt ei angen mewn perthynas â thybaco, fêps a chynhyrchion cyfyngedig eraill.  Mae'r arfau hynny'n cynnwys:

- y gallu i erlyn ystod eang o droseddau, sy'n cwmpasu ystod eang o gynhyrchion gan gynnwys cynhyrchion nicotin a fêps nicotin a fêps nad ydynt yn cynnwys nicotin. Mae hyn yn cynnwys nifer o droseddau newydd, megis gwahardd peiriannau gwerthu fêps a dosbarthu fêps am ddim;
- y gallu i drwyddedu manwerthwyr y cynhyrchion cyfyngedig ac i Safonau Masnach orfodi'r amodau trwyddedu. Mae hyn yn cynnwys y gallu i ddyroddi cosbau ariannol o hyd at £2500 am dorri amodau trwyddedu;
- y gallu i wneud cais am orchmynion mangreoedd a gorchmynion gwerthu o dan gyfyngiad yn erbyn troseddwyr mynych ar gyfer ystod ehangach o droseddau ac yn cwmpasu ystod ehangach o gynhyrchion o dan gyfyngiad;
- y gallu i gyhoeddi Hysbysiadau Cosb Benodedig o £200 ar gyfer ystod ehangach o droseddau. Caiff Gweinidogion Cymru gynyddu'r swm;

- Mae Rhan 5 o'r Bil yn darparu ar gyfer gwneud rheoliadau a fydd yn galluogi swyddogion Safonau Masnach i orfodi troseddau sy'n ymwneud â gwerthu a marchnata cynhyrchion o dan gyfyngiad;
- Bydd Rhan 5 o'r Bil yn galluogi cynllun cofrestru cynhwysfawr i gael ei sefydlu a'i orfodi a fydd yn galluogi gwaharddiadau neu gyfyngiadau i gael eu gosod ar gyflenwi cynhyrchion heb eu cofrestru;
- Mae Rhan 6 o'r Bil yn cyflwyno troseddau hysbysebu a nawdd ar gyfer ystod ehangach o gynhyrchion gan gynnwys hysbysebu dros y rhyngrwyd. Bydd gan Safonau Masnach y pŵer i orfodi'r troseddau, a fydd yn hwyluso mynd i'r afael â hyrwyddo a hysbysebu fêps i blant a phobl ifanc.

Rwyf o'r farn bod y cyfundrefnau gorfodi yn ddigonol i gefnogi'r gwaith o roi'r Bil ar waith yn effeithiol ac mae asesiad effaith llawn wedi'i gynnal ar y Bil gan Lywodraeth y DU: Cyhoeddiadau'r Bil Tybaco a Fêps - Biliau Seneddol - Senedd y DU [Saesneg yn unig]. Wrth i'r Bil barhau i fynd drwy'r Senedd, bydd fy swyddogion yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i ddeall goblygiadau'r mesurau newydd a'u heffaith ar adnoddau.

O ran y mesurau i fwrw ymlaen â hwy drwy is-ddeddfwriaeth, pan gaiff y Bil ei basio, byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda gwledydd eraill y DU i ddatblygu'r manylion. Bydd hyn yn cynnwys asesiadau effaith llawn ar adeg berthnasol yn y gwaith o ddatblygu'r rheoliadau i sicrhau bod yr effeithiau a'r costau ar gyfer gorfodi yn cael eu harfarnu a'u hystyried yn briodol. Fel sy'n arfer wrth ddatblygu rheoliadau, byddwn yn ystyried y gofynion adnoddau fel rhan o gylchoedd y gyllideb yn y dyfodol.

Byddaf yn sicrhau bod y Pwyllgor yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith i roi'r Bil ar waith ar y camau perthnasol.

**Goblygiadau Ariannol: Dim.**

## Argymhelliad 5

Mae'r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai'r Gweinidog gadarnhau y bydd y swm llawn o gyllid canlyniadol Barnett i gefnogi'r mesurau ar gyfer cenhedlaeth ddi-fwg a mesurau fepio ymhlith pobl ifanc yn cael ei ddefnyddio i gefnogi gweithredu, gan gynnwys gorfodi'r mesurau hyn.

**Ymateb: Gwrthod**

Mae Llywodraeth Cymru wedi cael cyllid canlyniadol oddi wrth Lywodraeth y DU mewn perthynas â'r camau sy'n cael eu cymryd yn Lloegr ar dybaco a fêps. Mae'r Cabinet yn gwneud penderfyniadau ynghylch sut y bydd cyllid a ddyrennir i Lywodraeth Cymru o ganlyniad i benderfyniadau gwariant gan Lywodraeth y DU mewn meysydd datganoledig yn cael ei wario ac rwyf yn ystyried yn ofalus yr

opsiynau ynghylch y ffordd orau y gallwn gefnogi'r mesurau yn y Bil a'r agenda tybaco a fepio ehangach. Mae'r byrddau iechyd ac Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cael codiadau i gefnogi eu gwaith, sy'n cynnwys rheoli tybaco a thriniaeth ar gyfer dibyniaeth ar nicotin.

**Goblygiadau Ariannol:** Dim.

## Argymhelliad 6

Mae’r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai’r Gweinidog ysgrifennu atom gyda’r wybodaeth ddiweddaraf am y sefyllfa ariannu i Ash Cymru Wales.

**Ymateb: Derbyn**

Cyfarfûm â Phrif Weithredwr ASH Cymru ar 19 Chwefror 2025 i drafod ei sefyllfa ariannu. Mae fy swyddogion yn parhau i ymgysylltu'n agos ag ASH Cymru ar y gwaith y gallant fwrw ymlaen ag ef i gefnogi gweithredu'r Bil Tybaco a Fêps a'r agenda ehangach ar gyfer rheoli tybaco.

**Goblygiadau Ariannol: Dim.**

## Argymhelliad 7

Mae’r Pwyllgor yn argymell y canlynol:

Dylai Llywodraeth Cymru:

- gadarnhau pa un a yw'r pwerau dirprwyedig y darperir ar eu cyfer yng nghymal 92 y Bil o ran cynnwys a chyflasynnau fêps yn berthnasol i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig ac nid Gweinidogion Cymru;
- cadarnhau, pe bai Llywodraeth Cymru yn y dyfodol yn dymuno gwneud darpariaeth wahanol ynglŷn â gwahardd gwerthu cyflasynnau fêps penodol, y byddai angen iddynt gyflwyno eu deddfwriaeth sylfaenol eu hunain i wneud hyn;
- nodi ei safbwynt o ran y ddau bwynt blaenorol.

**Ymateb: Derbyn**

Mae Llywodraeth Cymru yn dilyn yr egwyddor y dylai deddfwriaeth sylfaenol mewn meysydd datganoledig gael ei deddfu gan y Senedd. Er hynny, rydym yn dal yn fodlon gweithio gyda Llywodraeth y DU ar ei rhaglen ddeddfwriaethol ac rydym wedi ymrwymo i gyflawni canlyniadau sydd er budd gorau Cymru, gan barchu datganoli. Mae'r Bil Tybaco a Fêps yn enghraifft dda o ble mae llywodraethau'r DU wedi cytuno i weithio ar y cyd a rhoi mesurau cyson ar waith i

ddiogelu iechyd y cyhoedd tra'n gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau a'r cyfleoedd sydd ar gael.

Mae Rhan 5 o'r Bil yn cynnwys cyfres o bwerau i wneud rheoliadau i'w gwneud yn bosibl gosod gofynion mewn perthynas â safonau cynnyrch, gan gynnwys pecynnu, nodweddion cynhyrchion, cynnwys a chyflasynnau. Mae hwn yn faes o'r Bil lle mae rhesymeg glir dros drefn reoleiddiol gyson ledled y DU fel y gellir deall a chadw yn glir at y gofynion cynnyrch a'r safonau diogelwch a roddir ar waith.

Rwyf yn cadarnhau bod y pŵer yng Nghymal 92 yn nwylo'r Ysgrifennydd Gwladol ynghyd â'r holl bwerau Rhan 5 eraill. Gallai'r rheoliadau hyn ymwneud â chynnwys cynhyrchion fepio a'u cyflasynnau a bydd arnynt angen cydsyniad Gweinidogion Cymru ar faterion o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Rwyf yn fodlon y bydd hyn yn sicrhau bod y mesurau'n cymryd safbwynt Cymru i ystyriaeth. Fel y dywedaf yn fy ymateb i Argymhelliad 1, er fy mod yn disgwyl i'n cydweithrediad cryf â llywodraeth y DU ar dybaco a fêps barhau, os bydd Gweinidogion Cymru yn dymuno arddel ymagwedd wahanol o ran cyflasynnau fêps i'r hyn a arddelir mewn mannau eraill yn y DU, rwyf yn rhag-weld y byddai deddfwriaeth sylfaenol a ddygir ymlaen yn y Senedd yn cael ei hystyried. Byddai hyn yn ddarostyngedig i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd, a natur y ddarpariaeth i'w chyflwyno. Mae Llywodraeth y DU yn derbyn bod pwerau'r Ysgrifennydd Gwladol o fewn cymal 92 wedi'u datganoli.

Goblygiadau Ariannol: Dim.